

DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#15
Yn cynnwys: Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch:
• Potel wydr • Glanhäwr pibell • Cloch fach
• Caead a phwmp cadw gwin
Mae sŵn y clychau'n fy ngwylltio, Milo! O leiaf galla' i roi taw ar un ohonynt.
Clymwch un pen i'r glanhäwr pibell yn sownd wrth y gloch. Clymwch y pen arall yn sownd wrth y caead cadw, gan ofalu bod modd o hyd iddo selio'r botel yn iawn. (Mae'n bosibl y bydd angen i chi arbrofi gyda'r ffordd orau o wneud hynny.)
Rhowch y caead ar y botel gan ofalu nad yw'r gloch yn taro yn erbyn ochr y botel pan fyddwch yn ei hysgwyd. Dylai fod modd i chi glywed y gloch.
Defnyddiwch y pwmp sy'n rhan o'r caead i dynnu cymaint o aer ag sy'n bosibl allan o'r botel.
Vic Le Billon
Yna, ysgydwch y botel eto. Ni allwch glywed y gloch am eich bod wedi creu gwactod rhannol yn y botel. Heb aer yn y botel, ni all y sŵn deithio o'r gloch i'ch clust.